My Vote My Voice

# **Eich Canllaw Darllen Hawdd** i brif bleidiau gwleidyddol bach Cymru





Mae gan bobl syniadau gwahanol ynghylch sut ddylai'r wlad gael ei rhedeg.



Grŵp o bobl yw **plaid wleidyddol** sy'n rhannu syniadau ynghylch sut ddylai'r wlad gael ei rhedeg.




Mae pleidiau gwleidyddol eisiau bod mewn **llywodraeth** fel y gallant droi eu syniadau'n ddeddfau.

Mae'r llywodraeth yn grŵp o bobl sydd â'r pŵer i wneud deddfau a phennu rheolau ar gyfer y wlad.




Mae gan Gymru **bedair prif blaid wleidyddol**.

Mae ganddi hefyd **nifer o bleidiau gwleidyddol bach** a ddisgrifir yn y canllaw hwn.




Y rhain yw:

- **Plaid Gydweithrdol Cymru**
- **Y Blaid Werdd**
- **Propel**
- **Reform UK**




Yn aml mae pleidiau gwleidyddol yn cael eu disgrifio fel **adain chwith** neu **adain dde**.




Mae rhai pleidiau gwleidyddol hefyd yn cael eu disgrifio fel yn y **canol**.



Mae’r pleidiau gwleidyddol adain chwith yn credu mewn **cydraddoldeb**.

Mae hyn yn golygu eu bod eisiau i bawb gael cyfleoedd cyfartal a mwy o gefnogaeth gan y llywodraeth.




Mae’r pleidiau gwleidyddol adain dde yn credu mewn **traddodiad**.

Mae hyn yn golygu eu bod eisiau i bobl wneud eu penderfyniadau eu hun ynghylch eu bywydau ac i'r llywodraeth fod yn llai.




Mae’r pleidiau gwleidyddol yn y canol yn cefnogi **cydbwysedd** rhwng syniadau adain chwith ac adain dde.

Mae hyn yn golygu eu bod eisiau cydraddoldeb a hefyd eisiau i bobl wneud eu penderfyniadau eu hun ynghylch eu bywydau eu hun.




Mae'r rhan fwyaf o **bleidiau gwleidyddol Cymru yn y canol**, ond mae pob un yn pwyso i wahanol gyfeiriadau.

Gelwir y safleoedd hyn yn **ganol chwith**, **canol dde a chanolbleidiol**.




Mae Plaid Gydweithredol Cymru yn **ganol chwith.**



Maen nhw eisiau i fwy o bobl **ffurfio mwy o gydweithfeydd** lle mae'r aelodau'n cydweithio i helpu ei gilydd.

Mae **cydweithfa** yn fath o sefydliad sy'n gwneud bywydau ei haelodau'n haws. Gallai fod yn rhywbeth fel banc, busnes, ffatri, neu fferm




Mae'r Blaid Werdd yn **adain chwith**.




Maen nhw'n credu taw **diogelu'r amgylchedd** ddylai fod yn brif flaenoriaeth y llywodraeth.

Mae hyn yn golygu eu bod eisiau diogelu ac amddiffyn natur rhag niwed.




Mae gan Propel aelodau sydd â syniadau **adain chwith**, **adain dde**, a **chanolbleidiol**.



Prif nod pob un ohonynt yw i **Gymru ddod yn wlad annibynnol.**

Mae hyn yn golygu y byddai Cymru'n **gadael y Deyrnas Unedig** ac yn gwneud ei holl ddeddfau ei hun.




Mae Reform UK yn **adain dde**.


Eu henw blaenorol oedd “**Plaid Brexit**”.




Maen nhw eisiau **newid y system bleidleisio** mewn etholiadau cyffredinol fel y gall mwy o bleidiau bach gael eu hethol.

Maen nhw hefyd eisiau **stopio mewnfudo anghyfreithlon** i Gymru a'r Deyrnas Unedig.

Mae hyn yn golygu eu bod eisiau stopio pobl rhag dod o wledydd eraill heb ganiatâd



Mae'r Blaid Gydweithredol a Reform UK yn **unoliaethwyr**.

Mae hyn yn golygu **eu bod eisiau i Gymru aros yn rhan o'r Deyrnas Unedig**.



Mae'r Blaid Werdd yn **cefnogi Cymru i ddod yn wlad annibynnol**, ond nid dyma yw prif flaenoriaeth y blaid.



Mae pobl yn ethol **Aelodau Seneddol** o bob rhan o'r Deyrnas Unedig, yn cynnwys Cymru.

Mae Aelod Seneddol yn cael ei alw'n **AS** hefyd. Mae AS yn cael ei ethol i siarad o blaid y bobl sy'n byw yn eu hardal yn y **Senedd**.

Y Senedd yw'r man lle mae deddfau'r Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud.




Mae **etholiad cyffredinol** yn ddigwyddiad sy’n rhoi cyfle i bobl y wlad bleidleisio dros y llywodraeth nesaf.

Fel arfer mae etholiadau cyffredinol yn digwydd bob 5 mlynedd.

Mae **pob rhan o'r Deyrnas Unedig**, yn cynnwys Cymru, yn pleidleisio mewn etholiad cyffredinol.




Mae'r blaid sydd â'r nifer fwyaf o ASau ar ôl etholiad cyffredinol yn ffurfio'r llywodraeth.




Y **Blaid Geidwadol** sydd â'r nifer fwyaf o ASau a nhw yw'r blaid sydd mewn llywodraeth.

Eu harweinydd yw **Rishi Sunak** ac mae yntau'n **Brif Weinidog.**

Mae'r Prif Weinidog yn gyfrifol am y llywodraeth.




Y **Blaid Lafur** sydd â'r nifer ail fwyaf o ASau ac maen nhw'n ffurfio'r **Wrthblaid Swyddogol.**

Eu harweinydd yw **Syr Keir Starmer** ac mae yntau'n **Arweinydd yr Wrthblaid**.

Mae hyn yn golygu eu bod yn herio'r llywodraeth ac yn ei gorfodi i esbonio ei phenderfyniadau. Yn yr etholiad cyffredinol nesaf, **maen nhw eisiau disodli'r llywodraeth**.

Mae'r **Blaid Gydweithredol yn gweithio'n agos gyda'r Blaid Lafur** ac maen nhw'n rhannu llawer o bolisïau.

Fel arfer maen nhw'n sefyll gyda'i gilydd mewn etholiadau ac mae ei ASau'n rhan o'r Wrthblaid Swyddogol.




Ar hyn o bryd does dim Aelodau Seneddol etholedig gan y Blaid Werdd, Propel a Reform UK.

Nod Fy Llais Fy Mhleidlais yw annog pobl ag anableddau dysgu a phobl awtistig i Bleidleisio yn Etholiad Cyffredinol 2024.

**Ewch i www.myvotemyvoice.org.uk i gael mwy o wybodaeth.**

## Cysylltu:

info@myvotemyvoice.org.uk

#FyMhleidlaisFyLlais




Gyda diolch i Photosymbols a'r Comisiwn Etholiadol

United Response support that changes with you | dimensions | mencap | Ambitious about Autism